

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Ymchwiliad byr i oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd / Short inquiry into the
implications of Brexit
CWLC(5) BREXIT03
Ymateb gan Sinfonia Cymru / Evidence from Sinfonia Cymru

1. Cerddorfa siambr wedi'i lleoli yng Nghymru yw Sinfonia Cymru, sy'n canolbwyntio ar gefnogi cerddorion ifanc proffesiynol ar ddechrau eu gyrfaedd. Mae'r chwaraewyr yn dod o Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig (y DU). Rydym ni'n darparu ystod eang o raglenni – cerddorfa siambr, perfformiadau cerddoriaeth siambr, cerddoriaeth siambr gyfoes, prosiectau traws-genre a pherfformiadau mewn ysgolion. Un o nodweddion unigryw y ffordd mae Sinfonia Cymru'n gweithio yw ein bod ni'n rhoi chwaraewyr wrth wraidd ein rhaglennu creadigol.
2. Mae Sinfonia Cymru'n aelod o Gymdeithas Cerddorfeydd Prydain (ABO) ac mae ein Prif Weithredwr yn aelod o'i Bwrdd.
3. Er mwyn rhoi syniad i y Pwyllgor o effaith bosibl Brexit ar y sector cerddorfeydd ledled y DU, rydym ni'n darparu, yn rhan o'n tystiolaeth, bapur a gynhyrchwyd gan yr ABO yn gynharach eleni ar gyfer Llywodraeth y DU. Mae hwn yn amlinellu'r meysydd effaith tebygol yn fanwl.
4. Mae'r ABO yn cynrychioli ystod amrywiol o gerddorfeydd o fewn y sector proffesiynol fel ei haelodau craidd. Trwy ei haelodaeth gyswllt, mae hefyd yn cynrychioli cerddorfeydd ieuenctid, ysgolion cerddoriaeth a chyryff eraill.
5. Mae cerddorfeydd yng Nghymru a gweddill y DU yn amrywio o ran eu modelau llywodraethu a rheoli, a'u dibenion. Ceir ystod eang o raddfeydd hefyd – o gerddorfeydd symffoni llawn ag 80 neu 90 o chwaraewyr i *ensembles* siambr llai o rhwng 12 a 30.
6. Cerddorfa ar ei liwt ei hun yw Sinfonia Cymru, sy'n cyflogi chwaraewyr pan fydd arni ei hangen, yn ôl gofynion pob rhaglen neu brosiect. Weithiau, bydd yn chwarae ar raddfa cerddorfa symffoni, ond mae'r rhan fwyaf o'i gwaith yn canolbwyntio ar *repertoire* cerddorfa siambr neu *ensembles* llai ar gyfer prosiectau cerddoriaeth siambr. Mae'n defnyddio artistiaid ac arweinwyr gwadd, sy'n dod o dramor ambell waith, er bod y rhan fwyaf wedi'u lleoli yn y DU.

7. O ystyried yr amrywiaeth o wahanol fodolau ledled y DU, yn ogystal ag yng Nghymru yn benodol, mae'n anodd rhagfynegi effeithiau Brexit gan eu bod yn debygol o fod yn wahanol i bob sefydliad. Fodd bynnag, mae'r elfennau allweddol yr ymdriniwyd â nhw ym mhapur yr ABO ar gyfer sector cerddorfaol ehangach y DU yr un mor debygol o effeithio ar y cerddorfeydd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn syth neu rywbryd yn y dyfodol.
8. Gallai rhyddid artistiaid gwadd, arweinwyr, a cherddorion cerddorfaol i symud, a fwynheir ar hyn o bryd gan artistiaid yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), gael ei gyfyngu a bod yn destun mwy o fiwrocratiaeth a chost os bydd y system bresennol ar gyfer artistiaid nad ydynt yn perthyn i'r EEA yn cael ei ymestyn i'r EEA.
9. Mae'n debygol o effeithio ar deithio yn Ewrop. Mae gwaith rhyngwladol Sinfonia Cymru yn eithaf cyfyngedig, ond mae digwyddiadau diweddar yn cynnwys gŵyl draws-genedl yn 2014, a gynhaliwyd yn Estonia, yr Eidal, Sweden a Chymru; ac, yn 2017, ymweliad â Romania fel yr *ensemble* gwadd yng Ngŵyl Vibrate.
10. Er efallai ein bod ni'n gwneud llai o deithio rhyngwladol na rhai o'n cydweithwyr yn y sector, gallai unrhyw beth sy'n cyfyngu ar ein gallu i deithio neu sy'n ei rwystro neu ei wneud yn fwy anodd, fod yn niweidiol o bosibl i brosiectau teithio yn Ewrop yn y dyfodol. Bydd cyfyngu ar symud, rheolaethau ffin llymach, costau uwch a mwy o fiwrocratiaeth wrth deithio, lleihau neu ddileu darpariaeth iechyd gyffredin, a newidiadau i reolau cadw treth yn ôl, oll yn effeithio o bosibl ar ba mor ymarferol a dymunol ydyw i Sinfonia Cymru a cherddorfeydd eraill yng Nghymru drefnu perfformiadau yn Ewrop yn y dyfodol.